



**Bwrdd Uchelgais Economaidd
Gogledd Cymru
North Wales
Economic Ambition Board**

TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD

3 Chwefror 2023

PWNC

Eitem 5: CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 3

PENDERFYNIAD

1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddarau.
2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan y BUEGC, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.



TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD

3 Chwefror 2023

PWNC

Eitem 6: CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2022-23 – ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2022

PENDERFYNIAD

1. Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Rhagfyr 2022 y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 1 i'r adroddiad), sy'n cynnwys defnyddio swm gostyngedig pellach o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru er mwyn gadael sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.
2. Nodi a derbyn diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).
3. Cytuno ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 3).

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodi y rhagwelir tanwariant pellach o £127,078 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2022/23. Defnyddir unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i leihau'r swm a ddefnyddir o'r Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru.

I nodi dileu dau brosiect o'r rhaglen gyfalaf, sy'n gadael £19.7m o'r gyllideb gyfalaf sydd bellach heb ei neilltuo ar gyfer prosiectau. Cymeradwyodd y Bwrdd ar 9 Rhagfyr 2022 i ddyrannu £7m o'r cyllid hwn i Gronfa Cyflawni Portffolio i gefnogi prosiectau aeddfed i symud i gyflawni yn ystod 2023/24 a bydd y gweddill yn cael ei gynnis i brosiectau newydd.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr atodiadau, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Bwrdd Portffolio ar 20 Ionawr 2023.





TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD

3 Chwefror 2023

PWNC

Eitem 7: CAIS AM NEWID EJNI A DIWEDDARIAD AR Y BROSES CYFNEWID PROSIECT

PENDERFYNIAD

1. Cytuno i'r cais i newid a gyflwynwyd gan Brifysgol Bangor i gadw cam 1 o brosiect Egni o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru a thynnu cam 2 o'r prosiect yn ôl.
2. Clustnodi'r cyllid a ryddheir o Egni Cam 2 i'r broses newid prosiectau ac ymestyn y sgôp fel y nodir yn yr adroddiad.
3. Cytuno ar y sgôp a'r gofynion isafswm ar gyfer prosiectau Ynni Carbon Isel newydd fel y nodir yn yr adroddiad.
4. Cytuno i'r amserlen ddiwygiedig a nodir yn yr adroddiad ar gyfer y broses newid prosiectau gan gynnwys lansiad ffurfiol ym mis Chwefror 2023.
5. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, i weithredu'r Broses Newid Prosiectau fel y nodir yn yr adroddiad ac ymgymryd â'r holl gamau angenrheidiol i gwblhau'r dogfennau sydd eu hangen i ddechrau'r broses.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newidiadau posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol, eu hystyried gan y Bwrdd.

Mae'r Cytundeb Twf Terfynol yn nodi sefyllfa'r bwrdd mewn perthynas â phrosiectau amgen posib: "*Rhaid i unrhyw brosiectau newydd neu amgen sydd i'w cyflwyno am ystyriaeth, ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol ac amcanion yr achos busnes portffolio. Lle mae'r prosiectau hyn o fewn yr amlen ariannol gytûn bresennol ar gyfer y bartneriaeth, byddai angen i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wneud penderfyniad yn eu cylch.*"

Ym mis Rhagfyr 2022, cytunodd y Bwrdd i'r meini prawf ar gyfer y broses newid prosiectau wreiddiol i'w lansiad ar 16 Ionawr. Penderfynodd y Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Bwrdd Uchelgais i oedi'r broses ar ôl cael gwybod am y cais i newid oedd i'w gyflwyno gan Brifysgol Bangor ynghylch prosiect Egni fyddai â goblygiadau i'r broses hon.

Mae'r prosiect Egni gyda Phrifysgol Bangor wedi bod yn adrodd yn goch ers dros 12 mis ac mae wedi bod yn cael ei adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio. Roedd dull dau gam i'r prosiect yn cael ei ystyried gyda'r Brifysgol er mwyn cyflymu'r gwaith o'i gyflawni.

Sgôp gwreiddiol prosiect Egni oedd buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd.

O ganlyniad i oedi i'r gwaith o ddatblygu'r achos busnes, costau cynyddol a diffyg sicrwydd ynghylch strategaeth ystadau ehangach Prifysgol Bangor, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi bod yn gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu dull graddol i'r prosiect. Byddai Cam 1 yn canolbwyntio ar y datblygiad llai ym Mharc Gwyddoniaeth Menai, gyda Cham 2 yn cynnwys cyfleusterau ehangach campws Prifysgol Bangor.

Mae Prifysgol Bangor wedi cyflwyno cais i newid i'r Bwrdd Uchelgais i gadw Cam 1 (datblygiad newydd ym Mharc Gwyddoniaeth Menai) o fewn y Cynllun Twf a thynnu Cam 2 (datblygiad ehangach campws y Brifysgol) yn ôl.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Datganodd Chris Drew (Prifysgol Bangor) fuddiant personol oherwydd bod yr adroddiad yn ymwneud â chais y Brifysgol i newid Prosiect Egni.

Roedd y cynrychiolydd o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.



TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD

3 Chwefror 2023

PWNC

Eitem 8: PROSIECT HWB HYDROGEN A DATGARBONEIDDIO TRAFNIDIAETH

PENDERFYNIAD

1. Cymeradwyo'r broses arfaethedig i benodi noddwr prosiect.
2. Dirprwyo i Gyfarwyddwr y Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Swyddog Monitro'r awdurdod i gwblhau'r dogfennau ar gyfer y broses ddethol er mwyn penodi noddwr prosiect a chyflawni'r broses ar ran y Bwrdd.
3. Nodi, ar ôl cwblhau'r broses ddethol, y gwneir argymhelliad i'r Bwrdd Uchelgais er cymeradwyaeth.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cyflawni'r broses o benodi noddwr prosiect i gyflawni'r prosiect.

Y ffordd ymlaen y cytunwyd arni ar gyfer y prosiect yw penodi partner (noddwr prosiect) drwy broses ddethol gystadleuol i ddatblygu achos busnes a chyflawni'r prosiect hwb hydrogen. Dechreuodd hyn gyda Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) i asesu dyhead, capasiti a gallu'r farchnad i gyflawni'r prosiect mewn partneriaeth gydag Uchelgais Gogledd Cymru.

Ar 30 Medi 2022, cytunodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y camau a ganlyn:

- Cymeradwyo'r camau nesaf ar gyfer y prosiect a'r egwyddorion caffael drafft;
- Dirprwyo i Gyfarwyddwr y Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, awdurdod i gwblhau manyleb yr ymarferiad caffael yn derfynol ac yna ymgymryd â'r ymarferiad caffael ar ran y Bwrdd.
- Nodi, ar ôl cwblhau'r broses gaffael, y gwneud argymhelliad i'r Bwrdd er cymeradwyaeth.

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi gweithio gyda thîm o ymgynghorwyr caffael arbenigol o'r ymgynghoriaeth Local Partnerships i ystyried y dull mwyaf priodol o benodi noddwr.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a gweithdai i drafod y llwybrau caffael posib ynghyd â'u

manteision, eu hanfanteision ac unrhyw gyfyngiadau. Daeth y broses i'r casgliad nad defnyddio caffael cyhoeddus cystadleuol yng nghyd-destun y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus fyddai'r dull gorau o benodi noddwr prosiect.

O ganlyniad, ystyriwyd bod yr opsiwn o ddefnyddio proses sy'n debyg i 'Broses Newid Prosiectau' yn broses fwy addas i benodi noddwr. Argymhellwyd y byddai'r broses yn darparu dewis amgen addas i broses gaffael ffurfiol a byddai'n cynorthwyo i gyflymu'r broses, ar yr amod bod y broses yn cael ei gweithredu'n agored ac yn dryloyw ac yn cael ei chyfathrebu'n eang i unrhyw bartïon posib fyddai â diddordeb.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.



TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD

3 Chwefror 2023

PWNC

Eitem 9: CYNLLUN SGILIAU A CHYFLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2023-25

PENDERFYNIAD

Cadarnhau'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth rhanbarthol a'r tair blaenoriaeth sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025 wedi'i ddatblygu fel sylfaen i ddull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru i gyflawni darpariaeth sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth.

Mae wedi'i gynhyrchu gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn dilyn ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid, darparwyr rhanbarthol a'r diwydiant rhwng Ebrill a Gorffennaf 2022.

Mae angen adrodd i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y Cynllun.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r fforwm rhanbarthol, Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a chyflogwyr, darparwyr a rhanddeiliaid yn ystod haf 2022



TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD

3 Chwefror 2023

PWNC

Eitem 11: CRONFA CYFLAWNI'R PORTFFOLIO 2023-24 – CEISIADAU I NEWID

PENDERFYNIAD

1. Bod y Bwrdd yn cytuno i'r cais i newid ar gyfer Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych a chlustnodi uchafswm o £3.0m ychwanegol dros dro i'r prosiect rhag ofn na fydd y cais Ffyniant Bro yn llwyddiannus ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ar wahân o Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn. Ni fydd unrhyw gyllid pellach i'r prosiect yn cael ei ddarparu drwy'r Cynllun Twf, bydd angen i unrhyw gynnydd ychwanegol mewn cost gael ei ysgwyddo gan Ariannwr y Prosiect.
2. Bod y Bwrdd yn cytuno i'r cais i newid ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon a chlustnodi uchafswm o £1.97m ychwanegol dros dro i'r prosiect yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ar wahân o Achos Busnes Llawn. Ni fydd unrhyw gyllid pellach i'r prosiect yn cael ei ddarparu drwy'r Cynllun Twf, bydd angen i unrhyw gynnydd ychwanegol mewn cost gael ei ysgwyddo gan Ariannwr y Prosiect.
3. Bod y Bwrdd yn cytuno i'r cais i newid ar gyfer y Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter a chlustnodi uchafswm o £1.7m ychwanegol dros dro i'r prosiect yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ar wahân o Achos Busnes Llawn. Ni fydd unrhyw gyllid pellach i'r prosiect yn cael ei ddarparu drwy'r Cynllun Twf, bydd angen i unrhyw gynnydd ychwanegol mewn cost gael ei ysgwyddo gan Ariannwr y Prosiect.
4. Bod y Bwrdd yn clustnodi'r £225,000 sy'n weddill o'r Gronfa Cyflawni'r Portffolio i'r prosiect Ychydig % Olaf yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ar wahân o gais i newid yn y dyfodol ac Achos Busnes Llawn.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaeth y Bwrdd gytuno i sefydlu Cronfa Cyflawni'r Portffolio ar gyfer 2023-24 a chlustnodi hyd at £7m o'r cyllid a gaiff ei ryddhau yn sgil tynnu prosiectau Bodolwyddan a Llysfasi yn ôl i'r gronfa hon i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio sy'n gorfod ymdopi â chynnydd mewn costau neu faterion hyfywedd er mwyn gallu symud i gyflawni yn ystod 2023-24 (yn amodol ar benderfyniadau ar wahân gan y Bwrdd).

Pwrpas yr adroddiad hwn yw gosod y ceisiadau i newid am gyllid ychwanegol i'w ddarparu drwy'r Gronfa Cyflawni'r Portffolio i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Datganodd Paul Bevan (Grŵp Llandrillo Menai) a Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr) fuddiant personol oherwydd bod yr adroddiad yn crybwyll dyrannu adnoddau penodol i brosiectau Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Glyndŵr, ac oherwydd natur ariannu uniongyrchol yr eitem.

Roedd y cynrychiolwyr o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.
